**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-968
Ein cyf/Our ref RE/00339/20

Janet Finch-Saunders AS
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn ag ardrethi annomestig a chymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau hunanddarpar, a anfonwyd yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth gwerth £1.7 biliwn i helpu busnesau yng Nghymru yn ystod yr argyfwng coronafeirws. Mae'r pecyn yn cynnwys dros £350m i helpu busnesau gyda'u biliau ardrethi annomestig yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Bydd pob busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch, sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu is, yn cael 100% o ryddhad ardrethi annomestig yn 2020-21. Mae hynny'n golygu na fydd dros 70,000 o fusnesau yng Nghymru yn talu unrhyw ardrethi o gwbl ar gyfer y flwyddyn.

Ochr yn ochr â'r rhyddhad ardrethi ychwanegol, mae £876m ar gael ar gyfer cynllun grantiau newydd i fusnesau. Bydd busnesau a oedd yn gymwys yn flaenorol i gael ein Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach – sef y rheini sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000 – yn cael grant o £10,000. Nid oes unrhyw amodau ynglŷn â nifer y staff a gyflogir gan y busnes. Hefyd bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch, sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000, yn cael grant o £25,000.

Mae grantiau ar gael i fusnesau hunanddarpar ar y sail eu bod yn rhan o un o'r sectorau yr effeithiwyd arnynt yn fwyaf uniongyrchol gan yr argyfwng COVID-19 a'u bod yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi dwristiaeth yng Nghymru.

Cafodd canllawiau'r grant eu diwygio yn dilyn trafodaeth gydag awdurdodau lleol. Mynegodd rhai awdurdodau gwledig bryderon am y posibilrwydd y gallai grantiau gael eu talu i berchnogion ail gartrefi nad oeddent ond yn gosod eu heiddo yn achlysurol. O 20 Ebrill 2020 ymlaen, mewn perthynas â llety hunanddarpar, ni fydd eiddo yn gymwys i gael grant oni fodlonir y meini prawf canlynol:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae’r llety hunanddarpar yn gallu dangos dwy flynedd o gyfrifon masnachu yn union cyn blwyddyn ariannol gyfredol y busnes
- Rhaid i’r llety hunanddarpar fod wedi ei osod am gyfnod o 140 o ddiwrnodau neu fwy yn y flwyddyn ariannol 2019-20
- Rhaid mai'r busnes llety hunanddarpar yw prif ffynhonnell incwm y perchennog (isafswm y trothwy yw 50%).

Fodd bynnag mae canllawiau’r cynllun grantiau’r rhoi disgresiwn i awdurdodau allu gwneud penderfyniadau i ddyfarnu grant i fusnesau unigol, ac i gael y dystiolaeth ychwanegol y mae ei angen gan berchnogion busnesau, cyn gwneud dyfarniad grant. Mae’r disgresiwn hwn yn berthnasol i benderfyniadau awdurdodau lleol ynglŷn â dyfarnu grantiau i fusnesau yn y categorïau cymwys, gan gynnwys llety hunanddarpar. Mae’r canllawiau wedi cael eu paratoi ar ôl ymgynghori â gweithgor a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae gwneud penderfyniad i roi cymorth grant ai peidio yn parhau yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol unigol. Mae’r canllawiau presennol ar gael yma: https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/grantiau-covid-19-syn-gysylltiedig-ag-ardrethi-annomestig-ar-gyfer-busnesau-yng-nghymru

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cymorth i fusnesau drwy ei Chronfa Cadernid Economaidd gwerth £500m, a gall busnesau, nad ydynt yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi na chymorth grant, wneud cais iddi. Hefyd, rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i fynd ymhellach â’r cymorth a roddir i fusnesau Cymru.

Yn ogystal â hynny, mae ein gwasanaeth Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn gallu darparu cyngor ar y gwahanol ddewisiadau cymorth sydd ar gael, o gyngor ar gynlluniau ariannol a chadwyni cyflenwi i gyngor ar faterion staffio. Gellir cysylltu â llinell gymorth Busnes Cymru drwy ffonio 03000 603000 i gael gwybodaeth a chyngor ymarferol neu gyfeiriadau at asiantaethau a sefydliadau perthnasol.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd